Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales

**Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Health and Social Care Committee**

30 Medi 2011

Annwyl gyfaill,

Fel y byddwch yn ymwybodol, mae Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cytuno i gynnal ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn. Ystyriwyd cylch gorchwyl drafft yr ymchwiliad gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar ddydd Mercher 28 Medi 2011.

Mae'r Pwyllgor yn awyddus i glywed eich barn am gylch gorchwyl yr ymchwiliad (sydd wedi'i gynnwys fel atodiad A i'r llythyr hwn). **Cyfle i gyflwyno sylwadau ar y cylch gorchwyl drafft yn unig yw hwn**, ac nid gwahoddiad i chi gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig. Bydd cais am dystiolaeth ysgrifenedig manylach yn cael ei gyhoeddi nes ymlaen yn y tymor, ar ôl cytuno ar y cylch gorchwyl. Mae'r Pwyllgor eisoes wedi cytuno i ganolbwyntio'r ymchwiliad ar ofal preswyl i **bobl hŷn**; nid ydyw eisiau ymestyn yr ymchwiliad yn ehangach na hyn.

**Gwahoddiad i gyflwyno sylwadau ar y cylch gorchwyl**

Mae pythefnos gennych i gyflwyno sylwadau. Dylai eich sylwadau gyrraedd erbyn **dydd Gwener 14 Hydref 2011**. Fe fydd y Pwyllgor yn ystyried yr ymatebion a dderbynir cyn cytuno'r cylch gorchwyl terfynol. Efallai na fydd yn bosibl ystyried sylwadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.

Os ydych yn dymuno cyflwyno sylwadau, dylech ebostio HSCCommittee@wales.gov.uk neu ysgrifennu at Glerc y Pwyllgor, gan

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8403
E-bost / Email: HSCCommittee@wales.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn: Clerc y Pwyllgor, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymatebion yn Saesneg ac yn Gymraeg.

**Datgelu Gwybodaeth**

Mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi gwybodaeth a ddarperir i bwyllgor. O ganlyniad, gall eich ymateb ymddangos ar wefan y Cynulliad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi unrhyw wybodaeth a ystyrir yn ddata personol.

Ond, os ceir cais am wybodaeth a gyflwynwyd o dan ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig, efallai y bydd angen datgelu'r wybodaeth y byddwch yn ei darparu. Gall hyn gynnwys gwybodaeth sydd yn y gorffennol wedi'i thynnu gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.

Os ydych yn darparu unrhyw wybodaeth, ar wahân i ddata personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, dylech nodi'n glir pa rannau na ddylid eu datgelu, ynghyd â'ch rhesymau dros atal y deunydd dan sylw. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â Chlerc y Pwyllgor gan ddefnyddio'r manylion isod.

Yn gywir,

Mark Drakeford.

**Mark Drakeford AC**
**Cadeirydd**

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8403
E-bost / Email: HSCCommittee@wales.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

## ATODIAD A

### Cylch gorchwyl awgrymedig

Ymchwilio i'r ddarpariaeth o ofal preswyl yng Nghymru a'r ffyrdd y gall fodloni anghenion presennol pobl hŷn a'u hanghenion ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys:

- Y broses a ddilynir gan bobl hŷn wrth iddynt fynd i ofal preswyl ac argaeledd a hygyrchedd gwasanaethau amgen.
- Gallu'r sector gofal preswyl i fodloni'r gofyn am wasanaethau gan bobl hŷn o ran adnoddau staffio a nifer y lleoedd a'r cyfleusterau.
- Ansawdd gwasanaethau gofal preswyl a phrofiadau defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd; effeithiolrwydd gwasanaethau o ran bodloni'r amrywiol anghenion ymhlith pobl hŷn; a rheolaeth ar gau cartrefi gofal.
- Effeithiolrwydd trefniadau rheoleiddio ac archwilio ar gyfer gofal preswyl, gan gynnwys y cwmpas ar gyfer craffu mwy ar hyfywdra ariannol darparwyr gwasanaethau.
- Darpariaeth o fodelau gofal newydd sy'n dod i'r amlwg.
- Y cydbwysedd rhwng darpariaeth yn y sector cyhoeddus a'r sector annibynnol, a modelau ariannu a pherchnogaeth amgen fel y rheini a gynigir gan y sector gydweithredol a chydfuddiannol.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8403
E-bost / Email: HSCCommittee@wales.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh